

## Y Coronafeirws (COVID-19)

### Cod ymarfer ar gyfer ymweliadau safle gan swyddogion Cadw

Er mwyn sicrhau bod ein hymweliadau â safleoedd yn cael eu cynnal yn ddiogel rydym wedi datblygu'r arferion gweithio canlynol. Ym mhob achos mae ein staff yn cynnal ac yn cydymffurfio ag asesiadau risg ac yn gweithredu'r holl fesurau rheoli gofynnol er mwyn cydymffurfio â chanllawiau a chyfyngiadau presennol Llywodraeth Cymru. Mae pob un o'n staff wedi cwblhau hyfforddiant rheoli heintiau a hylendid er mwyn osgoi trosglwyddo'r coronafeirws.

#### Ein haddewid i chi:

##### Cyn i ni ymweld

- Ni fydd ein staff yn ymweld os oes ganddynt hwy neu unrhyw aelodau o'u haelwyd unrhyw symptomau sy'n gysylltiedig â COVID-19 neu os gofynnwyd iddynt hunanynysu gan Brofi, Orlhain, Diogelu.
- Byddwn yn cytuno ar ddyddiad, amser a manylion ein hymweliad â chi ymlaen llaw, a byddwn yn cyfyngu ar hyd ein hymweliad i'r lleiafswm sydd ei angen i ymgymryd â'r dasg.
- Ar gyfer ymweliad â heneb hanesyddol ar eich eiddo, byddwn yn cytuno gyda chi ymlaen llaw ynghylch y pwynt mynediad a'r llwybr at yr heneb. Ni fyddwn yn ymweld â'ch tŷ oni bai mai dyna bwrpas yr ymweliad.

##### Yn ystod ymweliadau allanol

- Byddwn yn cydymffurfio â'r holl fesurau rheoli COVID-19 a argymhellir, megis cadw pellter cymdeithasol a defnydd aml o hylif diheintio dwylo.
- Byddwn yn parcio ar wahân i'ch cerbydau chi ac yn gwisgo dillad llachar yn ystod ein hymweliad i dynnu sylw at ein presenoldeb.

##### Yn ystod ymweliadau ag adeiladau hanesyddol sy'n cynnwys archwiliadau mewnol

- Byddwn yn trafod unrhyw gyfyngiadau neu bryderon a allai fod gennych cyn ein hymweliad.
- Byddwn yn treulio cyn lleied o amser ag sy'n bosibl yn eich eiddo.
- Byddwn yn glanhau'n dwylo yn drylwyr cyn mynd i mewn i'r adeilad a gwisgo gorchudd wyneb gydol ein hymweliad.
- Byddwn yn osgoi cyffwrdd ag unrhyw gynnwys tra byddwn yn eich eiddo.
- Byddwn yn defnyddio cadachau pwrpasol i lanhau unrhyw arwynebau e.e. dolenni drysau, ac yn mynd â phob cyfarpar diogelu personol ymaith mewn bag wedi'i selio er mwyn ei waredu.

#### Beth rydym yn ei ofyn amdano gennych chi:

- Rhowch wybod i ni os oes gennych chi neu aelod o'ch cartref symptomau COVID-19 gwir neu eich bod yn amau bod gennych symptomau, neu os ydych chi'n hunanynysu oherwydd bod Profi, Orlhain, Diogelu wedi cysylltu â chi, fel y gallwn aildrefnu ein hymweliad yn unol â hynny.
- Rhowch wybod i ni os ydych chi neu aelod o'ch aelwyd mewn grŵp agored i niwed neu'n gwarchod.
- Ar gyfer ymweliadau sy'n cynnwys arolygiadau mewnol, gofynnwn yn garedig i chi:

- Agor cynifer o ddrysau ag sy'n ymarferol cyn ein hymweliad er mwyn i ni allu lleihau'r cysylltiad ag arwynebau megis dolenni drysau.
- Ystyried agor ffenestri ystafelloedd i'w hawyru cyn/yn ystod ein hymweliad.
- Lleihau i'r eithaf nifer y bobl sy'n bresennol a gwisgo gorchudd wyneb.